Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# Adroddiad Blynyddol - Adeiladu ar Lwyddiant

## Perfformiad 2009/10 a Gwelliant 2010/11

### Croeso i Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2010/11.

- Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'n llwyddiannau a'n cyflawniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae hefyd yn disgrifio ein blaenoriaethau a'n targedau allweddol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.

## Chi, y Rheithgor

### Safbwynt y Dinesydd

Datganiad cenhadaeth Cyngor Sir Caerfyddin yw 'Gwella ein ffordd o fyw a gweithio’. Ym mis Ionawr 2010, holwyd Panel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin, sef 700+ o bobl -

***“Yn eich barn chi, pa mor llwyddiannus neu aflwyddiannus fu Cyngor Sir Caerfyrddin o ran cyflawni'r genhadaeth hon?"***

Yn ôl cymhareb o 5:1 yr ymateb oedd ein bod yn llwyddiannus Roedd hwn yn ganlyniad braf iawn, ac mae'n cymharu'n ffafriol â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol

**50% ☺ v 10% ☹**




Llwyddiannus Iawn **2%**
Gweddol Lwyddianus **48%**
Gweddol Aflwyddiannus **8%**
Aflwyddiannus Iawn **2%**

Sylwer: Ni fynegwyd barn gan 40%

## Adeiladu Gwell Cyngor - a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau



**Arbed arian, arbed ynni, arbed yr Arth Pegynol - annog unigolion i fyw'n gynaliadwy....**
Dau blentyn o ysgol gynradd Glanyfferi gyda CHES - Arth Pegynol Cyllun Ynni Cartrefi Caerfyrddin adeg lansio cynllun Byw Sir Gâr. Prosiect peilot oedd hwn i weld sut orau y gallai Cyngor Sir Caerfyrddin a'i bartneriaid annog unigolion a chymunedau i fyw'n fwy cynaliadwy er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r her sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

### Ein llwyddiannau yn 2009/10

✓ Cyflawnwyd Lefel Blatinwm y Safon Iechyd Gorfforaethol. Mae hyn yn cydnabod rhagoriaeth fusnes o ran rhoi sylw llawn i gyfrifoldebau corfforaethol ac arddangos datblygu cynaliadwy fel rhan annatod o arferion a diwylliant busnes.

✓ Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol lansiwyd cynllun arloesol newydd i helpu unigolion a chymunedau yn Sir Gaerfyrddin i leihau eu hôl-troed carbon a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Cynhaliwyd peilot ar gyfer prosiect amlasiantaeth 'Byw Sir Gâr' yng Nglanyfferi, a chafwyd ymateb cadarnhaol gan y cyhoedd a'r cyfryngau.

✓ Ochr yn ochr â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cefnogodd y Cyngor Barc y Scarlets i ddod yn Rhanbarth Rygbi cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg ac ennill statws "Buddsoddi yn y Gymraeg"

✓ Cyflawnwyd gwerth dros £3 miliwn o arbedion effeithlonrwydd

✗ Gwaetha'r modd, ni chyrhaeddwyd ein targed ar gyfer lleihau carbon yn ein stoc adeiladau annomestig yn 09/10

✓ Cyflawnwyd dyfarniad cenedlaethol Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid (olynydd y Marc Siarter) gan Galw Sir Gâr

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2010/11

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau, gwireddu arbedion a blaenoriaethu gwasanaethau yn wyneb y cyfyngiadau cyllidebol anodd iawn sydd o'n blaenau
- Byddwn yn gosod 'mesuryddion clyfar' yn holl adeiladau'r Cyngor i alluogi cyflenwyr i gynhyrchu anfonebau wedi'u seilio ar yr union dreuliant, gan gyfrannu at gywirdeb adroddiadau yn y dyfodol
- Darparu manylion Lwfansau Aelodau ar-lein
- Eleni byddwn ni'n defnyddio un o'r prif gwmnïau cenedlaethol Ymchwil Marchnad i gynnal Arolwg Trigolion yn Sir Gaerfyrddin, er mwyn sicrhau ein bod yn dal i gyflawni enoriaethau ein dinasyddion

# Teimlo'n dda

**Mae Lorraine a Steve o Lannon wedi bod yn Ofalwyr Lleoliadau Oedolion ers dros dair blynedd. Daeth hynny'n naturiol iddyn nhw, gan fod rhieni Steve hwythau'n ofalwyr tebyg.**

Nawr, gyda'r ddau ohonynt yn 31 oed, a chanddynt ddau blentyn eu hunain, a gyda chwaer 17 oed Lorraine yn byw gyda nhw hefyd, maen nhw wrth eu bodd ar eu haelwyd brysur.

"Rwy'n gweld bod yn Ofalwr Lleoliadau Oedolion yn rhannol fel swydd, ond hefyd fel uned deuluol - mae ganddo'r un cyfrifoldebau â swydd, e.e. polisïau a gweithdrefnau, ond rydych chi'n croesawu pobl i'ch cartref, yn rhoi croeso iddyn nhw, ac yn eu gwneud yn gyfforddus, ac yn bennaf oll yn gartrefol," meddai Lorraine.

"Rydym ni'n cefnogi dau ŵr bonheddig y mae'n bleser eu cael yn byw gyda ni. Y llynedd, aethom ni ar wyliau gyda'n gilydd i Ffrainc. Mae un o'r ddau, sy'n 71 oed, yn fyddar a heb leferydd, ac mae'r llall yn 63 - doedd y naill na'r llall erioed wedi bod ar awyren nac ar wyliau tramor, ac roedden nhw wrth eu bodd. Roedd eu gweld nhw'n cael profiadau newydd a'u helpu i deithio yn brofiad da iawn.

Mae'n beth gwych gallu cynorthwyo pobl i fyw bywydau hapus, llawn boddhad, na fyddent yn bosibl heb gymorth."

Ychwanegodd: "Fel yn achos bywyd, rydych chi'n cael dyddiau da a rhai gwael, ond mae'n werth gweld bod eich cymorth yn gwneud gwahaniaeth ac yn galluogi pobl i ddod yn fwy annibynnol ac i gael profiadau na fydden nhw'n eu cael fel arfer.

Os ydych chi'n berson cefnogol, gofalgar, ac mae lle yn eich cartref, mae'n werth ystyried dod yn Ofalwr Lleoliadau Oedolion, gan y byddwch yn gwneud gwahaniaeth nid yn unig i fywyd rhywun arall, ond hefyd i'ch bywyd eich hun. Mae gweld pa mor hapus a bodlon gall person fod wrth rannu eich cartref yn werthfawr dros ben."



## Ein llwyddiannau yn 2009/10

- ✓ Rydym wedi datblygu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer pobl anabl trwy brosiect £5.6 miliwn COASTAL (Cynghrair y Tîm Creu Cyfleoedd a Sgiliau)
- ✓ Dyfarnwyd 123 o Wobrau Diogelwch Bwyd i arlwywyr sydd â hanes ardderchog o ran diogelwch bwyd yn dilyn archwiliad.
- ✓ Lleihawyd nifer y teuluoedd a wnaed yn ddigartref oedd yn gorfod defnyddio gwely a brecwast o 84 yn 2004 i 0 yn 2009/10
- ✓ Rydym wedi datblygu gwasanaethau arloesol megis ar hyd y nos, sy'n darparu gofal 24 awr
- ✓ Rydym wedi darparu 138 o gartrefi fforddiadwy yn y Sir, sef 38 yn fwy na'n targed gwreiddiol
- ✗ Er ein bod wedi sefydlu cyfeiriadur drafft o wasanaethau egwyl fer ar gyfer gofalwyr, nid ydym wedi asesu ac archwilio ansawdd y wybodaeth sydd ar gael.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2010/11

- Parhau i ddarparu gweithgareddau allgyrsiol trwy'r swyddog "5x60" sy'n cefnogi plant i gymryd rhan mewn 5 sesiwn 60 munud o weithgaredd corfforol bob wythnos
- Cynyddu nifer y tai cyngor sydd â systemau gwres canolog effeithlon eu tanwydd gan 450, nifer y ceginau sy'n bodloni Safon Tai Sir Gaerfyrddin gan 500, nifer yr ystafelloedd ymolchi gan 500, nifer y synwyryddion mwg gwifredig gan 150, a nifer y synwyryddion carbon monocsid gan 500.
- Sefydlu 20 o welyau ymadfer i ddarparu gofal dwys tymor byr gyda'r nod o sicrhau bod cleientiaid yn dychwelyd i'w cartrefi
- Parhau i ddatblygu ein gweithlu a darparu hyfforddiant effeithiol ar gyfer ymarferwyr, fel bod gan staff y lefel briodol o wybodaeth/sgiliau wrth ddelio gydag oedolion agored i niwed
- Agor cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn Llanybydder, mewn partneriaeth â Thai Gwalia, i ddarparu ystod o ofal a llety hyblyg ar gyfer pobl hŷn

# Lle Gwell

**Mae cymuned amaethyddol yn Nyffryn Tywi wedi cael modd i fyw yn sgil agor pont newydd.**

Pan fu'n rhaid rhoi terfyn pwysau 3 tunnell ar Bont Fferm Glandŵr roedd y trigolion yn ofni y byddai'n cael effaith negyddol ar fywydau pob dydd.

Ymatebodd y Cyngor yn ddi-oed gan fod yn rhaid rhoi cynllun pwysig ar waith i gryfhau'r bont oherwydd yr effaith ddifrifol ar y gymuned.

Yn ogystal â dylunio pont newydd, bu'n rhaid cael caniatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd i ddraenio'r tir a bu'n rhaid prynu darnau o dir preifat gan dirfeddianwyr cyfagos cyn cychwyn ar y gwaith adeiladu.

Meddai Gill Wright, Tŷ Glandŵr: "Roedd y terfyn pwysau yn effeithio ar bedair fferm a busnes gwely a brecwast. Roedd yn broblem fawr oherwydd 'doedd lorïau cludo porthiant a chyflenwadau eraill ddim yn gallu defnyddio'r bont ac mae'r ffordd arall i'r dyffryn yn gul iawn. Roedd yn bwysig iawn fod y gwaith yn cael ei gyflawni ac roedd pawb oedd yn gysylltiedig â'r gwaith o'r cynllunwyr i'r syrfewyr yn ardderchog."



*Cryfhau Pont – Cynghordy*

## Ein llwyddiannau yn 2009/10

- ✓ Sicrhau cyllid oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwelliannau lliniaru effeithiau llifogydd ym Mhont Tyweli.
- ✓ Buom yn ailgylchu ac yn compostio dros 40% o wastraff y Sir.
- ✓ Mae ailgylchu o ymyl y ffordd wedi cael ei estyn i dros 77,000 (94%) o aelwydydd.
- ✓ Cynhaliwyd archwiliad cynhwysfawr i asesu erydiad arfordirol.
- ✓ Cafwyd bod 100% o'r canlyniadau llygredd aer oddi mewn i'r safonau cenedlaethol.
- ✓ Cwblhawyd gwaith i gryfhau 4 pont.
- ✓ Sefydlwyd gwasanaeth Bwcabus mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ceredigion, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Chanolfan Ymchwil Drafnidiaeth Cymru.
- ✗ Mae cyflwr prif ffyrdd a ffyrdd eraill wedi dirywio, ond rydym yn cynnal cymaint o'r rhwydwaith priffyrdd â phosibl.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2010/11

- Sicrhau statws Baner Werdd ar gyfer Parc Gwledig Llyn Llech Owain.
- Hyrwyddo a chynyddu defnydd o'r system Bwcabus.
- Annog ein trigolion i gymryd rhan yn y gwasanaeth casglu gwastraff bwyd, er mwyn lleihau swm y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- Defnyddio technoleg tracio i gynyddu effeithlonrwydd y cerbydlu, ac felly leihau ein hallyriadau $CO_2$ a nifer y cerbydau sy'n cael eu defnyddio.

# Buddsoddi ac Arloesi

**"Ym mis Chwefror 2010 cynigiwyd cyfle cyflogaeth i mi, ac fe'i derbyniais, trwy brosiect Cronfa Swyddi'r Dyfodol.**

Helpodd fy nghyfnod yn swydd Cynorthwy-ydd Gweinyddol fi ar sawl lefel; o ddysgu dyletswyddau penodol y swydd, i gadw amser a phrydlondeb yn gyffredinol. Mae bod yn ôl mewn amgylchedd gwaith wedi golygu fy mod wedi arfer â dilyn trefn ddyddiol eto, ar ôl bod heb un yn ystod fy nghyfnod yn ddi-waith. Mae gweithio gyda chydweithwyr, yn ogystal â derbyn ymddiriedaeth i ddefnyddio fy menter fy hun a derbyn fy nghyfrifoldebau fy hun, wedi rhoi llawer iawn o hyder yn ôl i mi, nid yn unig yn y gweithle, ond hefyd yn fy mywyd cymdeithasol.

Rwyf yn awr wedi cael fy nerbyn ar gyfer swydd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin ar gontract pellach. Mae'r cymorth a gefais gan Swyddogion Cyswllt ar y prosiect yn gymorth mawr, ac rwy'n wir yn credu mai'r amser a'r ymdrech a dreulion nhw yn gweithio gyda mi oedd y rheswm pam bues i'n llwyddiannus yn sicrhau'r swydd hon. Byddwn wrth fy modd yn gweld y prosiect yma'n parhau am amser hir, gan ei fod wedi rhoi llawer o gymorth i mi, ac i lawer o bobl eraill, rwy'n sicr."

**Nikki**



## Ein llwyddiannau yn 2009/10

- ✓ Agorwyd cae rasio Ffos-las yn swyddogol ym mis Mehefin 2009.
- ✓ Agorwyd datblygiadau manwerthu a hamdden Rhodfa Santes Catrin yng Nghaerfyrddin ym mis Ebrill 2010.
- ✓ Agorodd Theatr y Lyric ar ei newydd wedd yn swyddogol ym mis Tachwedd 2009.
- ✓ Derbyniwyd cyllid ar gyfer prosiect £14.6 miliwn Y Gwaith2 - Prosiect Hamdden a'r Celfyddydau ar gyfer canol Llanelli, ym mis Ionawr 2010.
- ✓ Mae cwmnïau bach a chanolig ledled Sir Gaerfyrddin yn elwa o Gronfa Buddsoddiadau Lleol De-orllewin Cymru, sy'n werth £19 miliwn.
- ✓ Cyflawnwyd 41 o brosiectau a gweithgareddau cymunedol trwy'r cynllun Trefi Taclus, a luniwyd i wella ansawdd amgylcheddol ein trefi a'n pentrefi.
- ✓ Rydym yn darparu prosiect arddangoswyr Dyledion a Budd-daliadau yn Llanelli, sydd wedi cael ei estyn i Bantyffynnon a Phen Uchaf Dyffryn Aman.
- ✗ Methwyd â sicrhau achrediad rheoli ansawdd ar gyfer ein holl Ganolfannau Hamdden oherwydd cyfyngiadau cyllidebol.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2010/11

- Dechrau datblygu Y Gwaith2 - Prosiect Hamdden a'r Celfyddydau yn Llanelli.
- Creu Safle Cyflogaeth Strategol newydd 30 erw/£15 miliwn yn Cross Hands.
- Cyflwyno nifer o fentrau gwledig yn ymwneud â gwasanaethau sylfaenol i'r economi a phoblogaeth cefn gwlad.
- Darparu cymorth a chyngor ariannu i fusnesau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli.
- Hyrwyddo Sir Gaerfyrddin fel cyrchfan i dwristiaid trwy ymgyrchoedd marchnata hyrwyddo allweddol.
- Datblygu Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth Ieuenctid i'r sir.
- Arwain, cydlynu a sicrhau cyflawni cynlluniau gweithredu'r Bartneriaeth ar gyfer y Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yng Nglanymôr/Ty-isha, Felin-foel a Phantyffynnon, yn cynnwys prosiect Cyngor ar Ddyledion a Budd-daliadau i leihau anfantais gymharol yn yr ardaloedd hyn.

# Agor Drysau

**"Rwyf i a'm merch yn defnyddio llawer o'r gwasanaethau y mae Dechrau'n Deg yn eu cynnig, fel y sesiynau gofal plant am ddim yng Nghylch Meithrin Felin-foel, y Bws Stori, y sesiynau Iaith a Chwarae yn Ysgol y Felin a'r sesiynau Adrodd Storïau yn y Llyfrgell.**

Rwy'n mwynhau mynd yno i gwrdd â rhieni eraill, ac mae'r profiad wedi bod o gymorth mawr i'm merched, Lily a Jessica. Mae Lily newydd ddechrau yn Ysgol y Felin ac roeddwn i'n meddwl y byddai'n llefain, ond gan ein bod yn mynd yno bob wythnos i'r sesiynau Iaith a Chwarae a'i bod wedi arfer mynd i'r Ysgol Feithrin bob dydd, doedd dim problem o gwbl. Roedd Jessica'n arfer bod yn swil iawn a fyddai hi ddim yn gadael fy ochr, ond drwy fynd i'r holl weithgareddau a chyrsiau sydd ar gael inni, mae ei hyder wedi cynyddu. Mae Jessica'n dysgu llawer iawn, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, ac yn fwy na dim mae hi'n mwynhau mynd i bopeth er mwyn chwarae a gweld ei ffrindiau."



*Arunee gyda'i merch Jessica*

## Ein llwyddiannau yn 2009/10

- ✓ Y Feithrinfa 1af yng Nghymru i ennill dyfarniad Platinwm fel rhan o'r rhaglen Eco-Ysgolion, gyda mwy na 127 o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan yn y rhaglen
- ✓ Lleihawyd nifer y bobl ifanc 16-17 oed nad ydynt mewn "Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant" o 102 i 90
- ✓ Adborth neilltuol o adroddiad diweddar AGGCC (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru)
- ✓ Buddsoddwyd £19.1 miliwn arall er mwyn gwella adeiladau ysgol.
- ✓ Cynyddwyd canran yr ysgolion sy'n ymuno â'r fenter ysgolion iach i 100%
- ✓ Cynyddwyd nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun brecwast am ddim, a dyma'r nifer uchaf yng Nghymru o hyd, gyda 106 o ysgolion cynradd yn cynnal y clybiau brecwast. Daeth Ysgol Gynradd Nantgaredigyn enillwyr Cymru gyda'u "Brecwast Iach" yn yr "Her Goginio".
- ✓ Cychwynnwyd gwaith adnewyddu sylweddol gwerth £3.5 miliwn yn Llyfrgell Llanelli

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2010/11

- Lleihau nifer y bobl ifanc 16-17 oed nad ydynt mewn "Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant" o 90
- Agor ysgol gynradd newydd sbon gwerth £5.4 miliwn yn Ysgol Maes y Morfa, gyda lle i 210 o ddisgyblion, a darparu 26 o lefydd meithrin
- Darparu cwricwlwm amrywiol i sicrhau bod pob dysgwr ifanc (14-19) yn cael o leiaf 30 o opsiynau – (bydd 5 yn alwedigaethol) trwy weithio gyda phartneriaid lleol (ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant)
- Lleihau'r swyddi gwag ar gyfer gweithwyr cymdeithasol gymaint â phosibl, fel eu bod yn parhau o dan 10%
- Cynyddu % yr ysgolion sy'n cyflawni Cam 3 o'r Fenter Ysgolion Iach
- Recriwtio 12 gofalwr maeth newydd y flwyddyn i gynyddu'r dewis o leoliadau
- Annog cyflawniad oedolion sy'n dilyn Cyrsiau Addysg Gymunedol trwy gadw achrediad sy'n uwch na 75%

# Teimlo’n Ddiogel

Mae Plant Ysgol ym Mhorth Tywyn wedi ennill £100 o dalebau WH Smith mewn cystadleuaeth diogelwch cymunedol i gynyddu ymwybyddiaeth o fyrgleriaeth o siediau. Lansiwyd yr ymgyrch gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin i annog trigolion i ofalu bod adeiladau allanol megis siediau a garejys wedi'u diogelu.



## Ein llwyddiannau yn 2009/10

- ✓ Arweiniodd y Cynllun Bihafiwch neu Cewch eich Banio (BOBB) at 110 o bobl yn cael eu banio o dafarnau a chlybiau yn y sir.
- ✓ Cynhaliwyd digwyddiadau pontio'r cenedlaethau i roi cyfle i bobl iau a hŷn yn y gymuned ddod i adnabod ei gilydd, i herio eu canfyddiadau, ac i helpu i leihau ofn troseddau.
- ✓ Gweithiwyd tuag at statws Maes Parcio Mwy Diogel, gyda maes parcio aml-lawr Rhodfa Santes Catrin a'r Brodyr Llwyd yng Nghaerfyrddin yn cyflawni'r statws hwnnw.
- ✓ Cynhaliwyd ymgyrch cynyddu ymwybyddiaeth er mwyn annog pobl i gymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu eu heiddo.
- ✓ Trefnwyd cyhoeddusrwydd i dynnu sylw at faterion diogelwch ffyrdd cenedlaethol a lleol, megis gyrwyr ifanc, yfed a gyrru, defnyddio ffonau symudol, beiciau modur, gwisgo gwregys diogelwch, gyrru pan fyddwch wedi blino a rhai sy'n marchogaeth.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2010/11

- Cyflwyno 2 ddigwyddiad pontio'r cenedlaethau i fynd i'r afael â chanfyddiadau o bobl ifanc a phobl hŷn
- Parhau i hyrwyddo a chynnal y cynllun Bihafiwch neu Cewch eich Banio
- Parhau i ganolbwyntio ar dargedu ein troseddwyr mwyaf mynych, a gweithio gyda nhw i geisio torri'r cylch o droseddu
- Gweithio gydag asiantaethau partner i gyflawni mentrau ar adegau allweddol o'r flwyddyn er mwyn lleihau achosion o droseddu
- Prynu offer diogelwch newydd technegol ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth sydd mewn perygl mawr
- Parhau i leihau'r nifer sy'n cael eu hanafu mewn damweiniau ar y ffyrdd

**I gael rhagor o fanylion, ewch i: www.sirgar.gov.uk/perfformiad neu ffoniwch 01267 246197**

Mae llywodraeth leol yn atebol i ddinasyddion a threthdalwyr am y defnydd a wneir o adnoddau. Mae cyfrifoldeb felly ar arweinyddion etholedig, rheolwyr a staff i wneud eu gwaith mewn modd cynhyrchiol, effeithlon a chost effeithiol. Mae dinasyddion a threthdalwyr yn dymuno, ac yn haeddu, derbyn gwybodaeth a fydd yn caniatáu iddynt farnu pa mor effeithiol y mae’r Cyngor yn cyflawni’r disgwyliadau sydd arnynt.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni gynhyrchu'r adroddiadau canlynol:

## Edrych yn ôl

**Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2009/10**




Hydref 2010

## Edrych ymlaen

**Cyflawni ein huchelgais yn 2010/11**

**Cynllun Gwella Mai 2010**




**Ein Blaenoriaethau o ran Amcanion Gwella Allweddol ar gyfer 2010/11 yw:-**

1. Gweithio gyda'n partneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau ac arbed arian
2. Cyflawni rhaglen waith Safon Gofal Cartref Sir Gaerfyrddin
3. Diogelu plant ac oedolion agored i niwed
4. Byw'n annibynnol
5. Lleihau ein Hôl-troed Carbon
6. Ymadfer wedi'r dirwasgiad - cefnogi busnesau lleol
7. Gwella safonau addysg

Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y crynodeb hwn, mae croeso i chi gysylltu â ni:
Gwrando Arnoch Chi, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir Caerfyrddin SA31 1JP neu anfon e-bost at GwrandoArnochChi@sirgar.gov.uk

# Annual Report – Building on Success

## Performance for 2009/10 and Improvement for 2010/11

### Welcome to the Council's Annual Report and Summary Improvement Plan for 2010/11.

- This report looks back at our successes and achievements over the past year.
- It also looks forward at our priorities and key targets for the coming year.

## You the Jury

### Citizen's Viewpoint

Carmarthenshire County Council's mission is to 'improve the way we live and work'. In January 2010, Carmarthenshire's 700+ strong Citizens Panel were asked –

***"How successful or unsuccessful would you say that Carmarthenshire County Council is in achieving this mission?"***

By a ratio of 5 : 1 the response was that we were successful This was a very pleasing result and compares favourably with the previous years results

**50% ☺ v 10% ☹**




Very Successful **2%**

Fairly Successful **48%**

Fairly Unsuccessful **8%**

Very Unsuccessful **2%**

Note: 40% did not express an opinion

# Building a Better Council and Making Better Use of Resources



**Save money, save energy, save the Polar Bear - encouraging individuals to live sustainably....**

Two children from Ferryside primary school with CHES - Carmarthen Home Energy Scheme Polar Bear at the launch of Byw Sir Gar / Living Carmarthenshire scheme. This was a pilot project to explore how Carmarthenshire County Council and partners can best encourage individuals and communities to live more sustainably to help address the challenges associated with climate change.

## How we did in 2009/10?

✓ We achieved the Platinum Level of the Corporate Health Standard. This recognises business excellence in taking full account of corporate responsibilities and demonstrating sustainable development as an integral part of business practices and culture.

✓ In partnership with the Local Service Board we launched an innovative new scheme to help individuals and communities in Carmarthenshire reduce their carbon footprint and tackle climate change. The multi-agency 'Byw Sir Gâr - Living Carmarthenshire' project was piloted in Ferryside and received positive public and media response.

✓ The Council, alongside the Welsh Language Board, supported Parc y Scarlets to be the first Rugby Region in Wales to have adopted a Welsh Language Scheme and to gain the "Investing in Welsh" status

✓ We achieved over 3 million pounds efficiency savings

✗ Unfortunately we did not reach our 09/10 target for carbon reduction in our non domestic building stock

✓ The national Customer Service Excellence award (the successor to 'Chartermark') has been achieved for Carmarthenshire Direct

## What are we going to do in 2010/11?

- We will work with partners to make better use of resources and realise savings and prioritise services in the very difficult budgetary constrictions ahead
- We will be installing 'smart meters' across the Council's buildings to enable suppliers to produce invoices based on actual consumption
- To provide details of Members' Allowances on-line
- This year we will engage a leading national Market Research company to do a Residents Survey for Carmarthenshire to ensure we continue to deliver citizen's priorities

# Feeling Fine

**Lorraine & Steve of Llannon, have been Adult Placement Carers for over three years. To them, it came naturally, as Steve's own parents were also carers of the same nature.**

Now, both aged 31, and with two children of their own, and with Lorraine's 17-year-old sister also living with them, they get the greatest pleasure from having a busy household.

"I partly see being an Adult Placement Carer as a job but also as a family unit - it has the same responsibilities as a job, such as policies and procedures, but you welcome people into your homes and make them welcome and comfortable, and most of all at home," said Lorraine.

"We support two wonderful gentlemen who are a pleasure to have living with us. Last year, we went on holiday together to France. One gentleman, aged 71, is deaf and without speech, and the other is 63 - neither of them had been on a plane or a holiday abroad, and they absolutely loved it. To witness their new experiences and to support them to travel was a really good experience.

It's a wonderful thing to be able to support people to live happy fulfilling lives that may not be possible without support."

She added: "As with life you get good days and bad, but what makes it worthwhile is seeing that your support is making a difference and enabling people to become more independent and to have experiences that they would not normally have.

If you are a supportive and caring person and you have room in your home then it is worth considering becoming an Adult Placement Carer as you will be making a difference not only to another person's life, but your own. The rewards of witnessing how happy and content a person can become by sharing your home is worth it."



## How did we do in 2009/10?

- ✓ We have developed training opportunities for disabled people through £5.6 million COASTAL (Creating Opportunities & Skills Team Alliance) project
- ✓ We awarded 123 Food Safety Awards to caterers who have an excellent record for food safety following an inspection.
- ✓ Reduced the number of families made homeless having to use bed and breakfast from 84 in 2004 to 0 in 2009/10
- ✓ We have developed innovative services such as 'throughout the night' which provides 24 hour care
- ✓ We have delivered 138 affordable homes within the County which was 38 more than our original target
- ✗ Although we have established a draft directory of short break services for carers, we have not assessed and audited the quality of information available.

## What we are going to do in 2010/11?

- Continue to provide extra curricular activities through the "5 by 60" officer who supports children to take part in 5 sessions of 60 minutes physical activity a week
- Increase the number of council houses with fuel efficient central heating systems by 450, kitchens that meet the Carmarthenshire Home Standard by 500, bathrooms by 500, hard wired smoke detectors by 150 the number of carbon monoxide by 500
- Establish 20 convalescence beds to provide short term intense care to aim to get customers back to their own homes
- Continue to develop our workforce and provide effective training for practitioners so that staff have the appropriate level of knowledge/skill when dealing with vulnerable adults
- Open a new Extra Care facility in Llanybydder in partnership with Gwalia Housing to provide a range of flexible care and accommodation for older people

# A Better Place

**A FARMING community in the Tywi Valley have been given a new lease of life - thanks to a new bridge.**

When a 3 tonne weight limit had to be imposed on Glandwr Farm Bridge, residents feared the impact it would have on their daily lives.

The council acted swiftly as a major bridge strengthening scheme needed to be carried out due to the severe affect on the community.

As well as the design of the new structure, land drainage consent had to be approved by the Environment Agency, together with the acquisition of privately owned land from adjoining landowners prior to construction works commencing.

Gill Wright of Ty Glandwr said: "There are four farms and a bed and breakfast that were affected by the weight restriction, it was a big problem as lorries bringing in feed and other supplies were not able to use the bridge and the other road leading in to the valley is very narrow indeed. It was very important that the works were carried out and everyone involved from the planners to the surveyors were great."



*Bridge Strengthening - Cynghordy*

## How did we do in 2009/10?

- ✓ Secured funding from Welsh Assembly Government to provide flood alleviation improvements at Pont Tyweli.
- ✓ We recycled and composted over 40% of the County's waste.
- ✓ Kerbside recycling has been rolled out to over 77,000 (94%) of households.
- ✓ A comprehensive inspection has been undertaken to assess coastal erosion.
- ✓ 100% of air pollution results were found to be within the national standards.
- ✓ Works to strengthen 4 bridges has been completed.
- ✓ A Bwcabus service was established in partnership with Ceredigion County Council, Welsh Assembly Government, Wales European Funding Office and the Welsh Transport Research Centre.
- ✗ The condition of principle and non-principal roads has deteriorated but we are maintaining as much of the highway network as possible.

## What are we going to do in 2010/11?

- Obtain Green flag status for Llyn Llech Owain Country Park.
- Promote and increase patronage on the Bwcabus service.
- Encourage our residents to participate in using the food waste collection service, to reduce the amount of waste sent to landfill.
- Utilise tracking technology to increase fleet efficiency, thus reducing our $CO_2$ emissions and number of vehicles in operation.

# Investment and Innovation

**"In February 2010 I was offered, and accepted an employment opportunity through the Future Jobs Fund project.**

My time spent at my post as an Administrative Assistant helped me on a number of levels; from learning specific job role duties, to my general time-keeping and punctuality. Being back in a working environment has got me used to following a daily routine again, which I didn't have during my time of unemployment. Working with colleagues, as well as being trusted to use my initiative and take on my own responsibilities, has given me a huge amount of confidence back, not only in the workplace, but also in my social life.

I have now been accepted for a position within Carmarthenshire County Council on a further contract. The support I got from the Liaison Officers on the project is a massive help, and I truly believe that the time and effort that they spent working with me, was the reason I was successful in getting the new post that I've been accepted for. I would love to see this project continue on for a long time to come, as it has been a great help to myself and I'm sure many others."

**Nikki**



## How we did in 2009/10?

- ✓ Ffoslas racecourse was opened officially in June 2009.
- ✓ The St Catherine's Walk retail and leisure developments in Carmarthen opened in April 2010.
- ✓ The revamped Lyric Theatre officially opened in November 2009.
- ✓ Funding was received for the £14.6 million Works2 – Leisure and Arts Project for the centre of Llanelli in January 2010.
- ✓ Small and medium sized companies across Carmarthenshire are benefiting from the £19 million South West Wales Local Investment Fund.
- ✓ We delivered 41 community projects and activities through the Tidy Towns scheme designed to improve the environmental quality of our towns and villages.
- ✓ We are delivering a Debt and Benefit demonstrator project in Llanelli which has been extended to Pantyffynnon and Upper Amman Valley.
- ✗ We failed to secure quality management accreditation for all our Leisure Centres due to budgetary constraints.

## What we are going to do in 2010/11?

- Commence development of the Works2 - Leisure and Arts Project in Llanelli.
- Create a new 30 Acre/£15 million Strategic Employment Site in Cross Hands.
- Deliver a number of rural initiatives relating to basic services for the economy and rural population.
- Provide funding support and advice to new and existing businesses.
- Promote Carmarthenshire as a tourist destination via key promotional marketing campaigns.
- Develop a Youth Entrepreneurship Action plan for the County.
- Lead, co-ordinate and ensure delivery of Partnership action plans for Communities First Programme in Glanymor/Tyisha, Felinfoel and Panyffynnon, including a Debt & Benefit Advice project to reduce relative disadvantage within these areas.

# Opening Doors

**"My daughter and I use many of the services which Flying Start offer, such as the free childcare sessions in Cylch Meithrin Felinfoel, the Storybus, the Language and Play sessions in Ysgol Y Felin and the Storytelling sessions in the Library.**

I enjoy going along to meet other parents and it has also been very good for both my daughters, Lily and Jessica. Lily has recently started at Ysgol Y Felin and I thought she would cry, but because we go there every week for Language and Play and she was used to going to the Meithrin everyday, she had no problems at all. Jessica used to be very shy and would not leave my side, but by going along to all the activities and courses available to us, she has grown in confidence. Jessica is learning a great deal, including the Welsh language and most of all, she loves going along to everything to play and see her friends."



*Arunee with daughter Jessica*

## How we did in 2009/10?

- ✓ 1st Nursery in Wales to win the Platinum award under Eco Schools programme, with over 127 schools in Carmarthenshire taking part in the programme
- ✓ Reduced the number of young people aged 16-17 who are not in "Education, Employment or Training" from 102 to 90
- ✓ Outstanding feedback from the recent CSSIW (Care & Social Services Inspectorate Wales) report
- ✓ Invested a further £19.1 million in the improvement of school buildings.
- ✓ Increased the % of schools joining the Healthy Schools Initiative to 100%
- ✓ Increased the number of schools taking part in the free school breakfast scheme, remaining the highest in Wales with 106 primary schools running the breakfast clubs and Nantgaredig Primary school became Welsh Winners with their "Healthy Breakfast" in the "Let's Cook Challenge"
- ✓ Initiated £3.5million major refurbishment in Llanelli Library

## What we are going to do in 2010/11

- Reduce the number of young people aged 16-17 who are not in "Education, Employment or Training" from 90
- Open a £5.4million brand new Primary school at Ysgol Maes y Morfa, to house 210 pupils and provide 26 nursery places
- Deliver a varied curriculum to ensure that every young learner (14-19) has at least 30 options – (5 will be vocational) by working with local partners (schools, colleges and training providers)
- Minimise Social Worker vacancies to remain below 10%
- Increase % of schools achieving Phase 3 of the Healthy Schools Initiative
- Recruit 12 new foster carers per year to increase placement choice
- Encourage the achievement of adults undertaking Community Education Courses by retaining an accreditation of above 75%

# Feeling Secure



SCHOOLCHILDREN in Burry Port have won £100 worth of WHSmith vouchers in a community safety competition to raise awareness of shed burglaries. The campaign was launched by Carmarthenshire's Community Safety Partnership to encourage residents to make sure their outbuildings such as sheds and garages were secure

## How we did in 2009/10?

- ✓ The Behave or Be Banned (BOBB) scheme resulted in 110 people banned from pubs and clubs in the county.
- ✓ Intergenerational events were held to give older and younger people in the community a chance to get to know each other, to challenge their perceptions and help reduce the fear of crime.
- ✓ Work towards Safer Car Park status with both St Catharine's walk multi-storey car park and the Greyfriars in Carmarthen achieving the status.
- ✓ An awareness-raising campaign to encourage people to take the necessary precautions to secure their property.
- ✓ Publicity to highlight both national and local road safety issues such as young drivers, drink-driving, mobile phone use, motorcycling, seatbelt wearing, driving when tired and horse riders.

## What are we going to do in 2010/11?

- Deliver 2 intergenerational events to tackle perceptions of young and older people
- Continue to promote and support the Behave or Be Banned scheme
- Continue to focus on targeting our most prolific offenders and work with them to try to break their cycle of offending
- Work with partner agencies to deliver initiatives at key times of the year to reduce incidents of crime
- Purchase new hi tech safety equipment for high risk victims of abuse
- Continue to reduce road accident casualties

**For more detailed information, www.carmarthenshire.gov.uk/performance or ring 01267 246197**

Local Government is accountable to citizens and taxpayers for how resources are used. Therefore its elected leaders, managers and employees have a responsibility to conduct business in a productive, efficient, and cost effective manner. Citizens and taxpayers want and deserve information that will allow them to judge the effectiveness of the Council in achieving expected outcomes.

We are required by law to produce the following reports:

## LOOk back

**Annual report on 2009/10 Performance**




October 2010

## LOOk forward

**Delivering our ambitions in 2010/11**

**Improvement Plan May 2010**




Our Key Improvement Objective Priorities for 2010/11 are:-

1. Working with partners to make better use of resources and realise savings
2. Delivering the work programme for the Carmarthenshire Homecare Standard
3. Safeguarding vulnerable children and adults
4. Independent Living
5. Reducing our Carbon footprint
6. Emerging from the recession – supporting local business
7. Improving educational standards

If you would like to comment on this summary please get in touch:
Listening to You, Carmarthenshire County Council, County Hall, Carmarthen SA31 1JP or email at ListeningToYou@carmarthenshire.gov.uk